Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Berllan Deg
# Circle Way East
# Cardiff
# CF23 9LD

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol y Berllan Deg yn ysgol cyfrwng Cymraeg, wedi ei lleoli yn nwyrain Gaerdydd, a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Caerdydd. Mae'r ysgol yn derbyn plant o ddalgylch eang iawn, o Bontprennau, Cyncoed, Penylan, Pentwyn, Llanedern, Y Rhath, Sblot, a Thremorfa. Cafodd yr ysgol ei sefydlu yn 1999 a symudodd i'r safle presennol yn 2003. Mae'r ysgol yn darparu addysg, trwy gyfrwng y Gymraeg, i 449 o blant ac mae 8.5% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae 76% o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg. Daw 14% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf, 3% o gefndir lleiafrifol ethnig, a 86% o gartrefi sydd ddim yn siarad Cymraeg. Serch hynny, Cymraeg yw prif gyfrwng cyfathrebu a dysgu'r ysgol. Mae 15.3% o ddisgyblion yn derbyn cymorth anghenion addysg ychwanegol ar lefel 'Ysgol', 3.8% ar lefel 'Ysgol a Mwy', a 0.6% gyda datganiad. Mae gan dri anawsterau dysgu penodol, a naw anawsterau cyfathrebu. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau, dros dro na pharhaol, yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Berllan Deg yw £2,998, sy'n cymharu ag uwchafswm o £14,067 ac isafswm o £2,787 ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghaerdydd. Yr ysgol sydd â'r gyllideb, fesul disgybl, 92 uchaf o'r 102 ysgol gynradd yng Nghaerdydd.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr Haf 2005 a penodwyd y pennaeth ym Medi 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- disgyblion yn gwneud cynnydd da;
- disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cefnogaeth dda gan yr athrawon;
- yr ysgol yn cynllunio'n ofalus er mwyn darparu ystod eang o weithgareddau dysgu cyffrous; a bod
- yr ysgol yn paratoi'r disgyblion yn dda iawn ar gyfer dod yn aelodau cyfrifol a gwybodus o'r gymuned.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n llwyddo i gyfleu honno'n effeithiol i'r staff a'r disgyblion;
- hunan arfarnu'n greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol;
- aelodau'r corff llywodraethol yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau'n gydwybodol ac yn deall eu rôl yn dda; a bod
- yr ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda.

## Argymhellion

Mae angen i'r ysgol:

A1 wella'r cysondeb yn yr addysgu da a rhagorol ar draws yr ysgol;

A2 datblygu gweithdrefnau hunan asesu ysgol gyfan yn fwy effeithiol; ac

A3 ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion hŷn hunan werthuso a gosod targedau unigol ar draws y cwricwlwm.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r disgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda medrau sydd yn agos at, neu'n uwch na'r lefelau disgwyliedig. Yn ystod eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen maent yn gwneud cynnydd da.

Yng nghyfnod allweddol 1, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae disgyblion saith mlwydd oed yn perfformio'n well na disgyblion eraill yn y teulu o ysgolion, a phan yn cymharu â chyfartaledd Cymru. Mae hyn oherwydd y nifer sy'n llwyddo i gael y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 2 yn y tri phwnc craidd, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, gyda'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw perfformiad y disgyblion cystal pan yn cymharu yn genedlaethol ac ysgolion eraill â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae eu perfformiad, pryd hynny yn saith mlwydd oed, ymhlith y 50% isaf yn y pynciau craidd.

Ar y cyfan, mae perfformiad y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn well nag eraill yn y teulu o ysgolion, ac yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae eu perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth ymlith y 50% isaf o gymharu yn genedlaethol, a disgyblion eraill mewn ysgolion sydd â chanran tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim. Mae eu perfformiad yn y Gymraeg a'r Saesneg o fewn y 50% uchaf, ac mae patrwm o welliant dros y tair blynedd ddiwethaf o'r canran o ddisgyblion sydd yn cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn darllen ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Yn 2010, gwnaeth y disgyblion mwyaf galluog yn well na disgyblion eraill yn y teulu o ysgolion i gyrraedd yn uwch na'r lefel disgwyliedig, hynny yw lefel 3 yn saith oed a lefel 5 yn 11 oed ymhob un o'r pynciau craidd. Maent wedi gwneud cynnydd da ar draws y tair blynedd diwethaf. Mae asesiadau athrawon am 2011 yn dangos bod y merched yn perfformio yn well na'r bechgyn yng nghyfnod allweddol 1, a'r bechgyn yn well na'r merched yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson ac yn cyflawni'n dda yn y rhan fwyaf o'r gwersi. Maent yn gwrando'n dda ac yn parchu cyfraniadau eu gilydd. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn ysgrifennu a darllen ac maent yn medru ysgrifennu yn estynedig i wahanol bwrpasau yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae medrau llafar y disgyblion yn dda iawn. Maent yn siarad yn hyderus a gallant egluro yn glir beth maent yn ei ddarllen a hefyd am eu bywyd yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth chwarae a chyfathrebu gyda'i gilydd. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dwyieithrwydd ac maent yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol ac yn cyflawni'n dda yn erbyn eu targedau unigol. Mae disgyblion ar ddatganiad o anghenion arbennig yn gwneud cynnydd arwyddocaol o ran lefelau'r cwricwlwm

cenedlaethol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Hefyd mae bron pob un o'r disgyblion mwy abl a thalentog yn cyrraedd eu potensial.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn cael cefnogaeth dda gan yr athrawon. Maent yn cytuno bod yr ysgol yn eu dysgu i gadw'n iach ac maent yn datblygu dealltwriaeth dda iawn o fyw a bwyta'n iach. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar a diogel, lle mae lles pob un o'r disgyblion yn ganolog. Mae presenoldeb disgyblion yn cymharu'n ffafriol gyda'r teulu ac mae'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a'r awdurdod lleol. Mae'r canran presenoldeb 2009 a 2010 dros 94%. Mae'r disgyblion yn brydlon i'w gwersi ac mae'r rhan fwyaf yn frwdfrydig ac yn ymuno'n heini. Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol ac maent yn cyfathrebu'n gwrtais a chlir gydag ymwelwyr â'r ysgol. Hefyd, dangosant barch a gofal tuag at eu cymheiriaid. Maent yn falch iawn o'u hysgol ac yn gwrtais wrth ymdrin a staff yr ysgol ac ymwelwyr. Mae bron pob un disgybl yn cytuno bod athrawon yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Nid oedd unrhyw waharddiad yn ystod y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gyfrannu at benderfyniadau'r ysgol trwy berthyn i grwpiau perthnasol fel y cyngor ysgol, pwyllgor eco, Bosys Bach y Berllan a'r pwyllgor masnach deg. Mae'r grwpiau yma wedi gwneud cyfraniad adeiladol tuag at ddatblygu'r ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn cynllunio'n ofalus er mwyn darparu ystod eang o weithgareddau dysgu cyffrous. Mae ymwelwyr i'r ysgol ynghyd ag ymweliadau addysgol pwrpasol yn sicrhau dysgu sy'n ddiddorol, yn bleserus, yn berthnasol ac yn heriol i'r dysgwyr.

Mae cynlluniau'r ysgol gyfan, ynghyd â chynlluniau athrawon unigol, yn sicrhau datblygiad yn y medrau ar draws y cwricwlwm. Caiff y disgyblion gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau siarad a gwrando a gwelwyd amrediad o brofiadau priodol a heriol yng ngwaith y dysgwyr. Gwneir defnydd effeithiol iawn o NAIN sef 'Nodi'r Amcan i Ni' ymhob gwers er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn deall amcan y weithgaredd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn rhagorol ac yn galluogi'r dysgwyr i wneud cynnydd da iawn. Yn ddieithriad, mae'r dimensiwn Cymreig wedi'i wreiddio'n ddwfn yn holl agweddau'r cwricwlwm ac mae'n gryfder ar draws y cyfnodau. Trefnir ymweliadau cyson gan ystod o hwyluswyr Cymreig, er enghraifft Bardd Plant Cymru, Theatr Mewn Addysg ac awduron. Trwy ymgymryd â phrosiectau megis Wythnos Masnach Deg a chasglu arian i elusennau, mae Dinasyddiaeth Fyd Eang yn gryfder arall yn yr ysgol a pharatoir y disgyblion yn dda iawn ar gyfer dod yn aelodau cyfrifol a gwybodus o'r gymuned. Mae cysylltiadau gyda Lesotho a Phatagonia yn cryfhau ymwybyddiaeth y disgyblion ymhellach. Mae darpariaeth dda iawn i alluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd ac mae'r ysgol wedi ennill yr ail faner werdd ar gyfer ysgolion eco. Yn ogystal, fel Ysgol Iach, mae'n

hyrwyddo prosiectau lleihau gwastraff, arbed ynni a bwyta'n iach yn llwyddiannus.

Anogir y disgyblion yn llwyddiannus i ddod yn ddysgwyr annibynnol sy'n barod i adlewyrchu'n feirniadol ar syniadau, gweithrediadau a chanlyniadau eu hunain a'u cyfoedion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i ofynion y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008. Mae cryfder arbennig i ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn nosbarthiadau'r Meithrin a'r Derbyn.

Gwna'r ysgol ddefnydd eithriadol o dir yr ysgol i ddarparu profiadau dysgu sy'n hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth dda o amgylchfyd yr ardal a gofynion y cwricwlwm.

**Addysgu: Da**

Ym mhob un o'r gwersi, mae'r athrawon yn gosod ac yn rhannu amcanion clir ac yn sicrhau bod y dysgwyr yn ymwybodol o feini prawf llwyddiant er mwyn datblygu safon eu gwaith a'u medrau allweddol. Yn y gwersi gorau, mae'r meini prawf hyn yn cael eu gosod gan y disgyblion. Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth dda iawn o ofynion y cwricwlwm a strategaethau amrywiol i hybu annibyniaeth y disgyblion mewn sawl agwedd o'r cwricwlwm. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae'r athrawon ac oedolion eraill yn ysgogi disgyblion drwy ddefnyddio cwestiynu agored a heriol. Lle bo addysgu ar ei fwyaf effeithiol, mae'r athrawon yn arddel rheolaeth a threfniadau dosbarth da ac mae lefel ymrwymiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarthiadau hyn yn uchel. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae gweithgareddau wedi eu gwahaniaethu'n briodol.

Yn yr ychydig wersi lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r athrawon yn cynllunio yn ddigon manwl er mwyn hyrwyddo a datblygu'r medrau allweddol, ac nid yw'r disgyblion mwyaf abl bob amser yn cael eu hymestyn.

Yn rhan fwyaf y dosbarthiadau mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion hunan werthuso'u gwaith a gwaith eu cymheiriad. Er bod y broses wedi ei gwreiddio ar draws y cyfnodau, nid yw hyn yn gyson ymysg y disgyblion hŷn.

Mae cynorthwywyr dosbarth yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u rôl, ac yn cyfrannu'n sylweddol i'r dysgu a'r ddarpariaeth. Mae'r berthynas rhwng yr athrawon, y staff cefnogi a'r disgyblion yn rhagorol ac yn cyfranu'n arwyddocaol tuag at wella safonau. Mae sylwadau'r athrawon ar waith y dysgwyr yn fanwl ac adeiladol ac yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw marcio gwaith y disgyblion bob amser yn gyson ar draws y dosbarthiadau.

Mae'r ysgol yn datblygu gweithdrefn gynhwysfawr ar gyfer asesu ac olrain cynnydd dysgwyr. Mae'n cymedroli gwaith yn gyson er mwyn sicrhau cysondeb yn yr asesu; gwneir hyn ar lefel ysgol yn ogystal â safoni manwl yn y pynciau craidd. Hefyd mae'r ysgol yn cwrdd ag ysgolion clwstwr Glantaf i gymedroli safonau

Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth glir i rieni am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ddiogel a chynhwysol lle mae parch a gofal ymysg y disgyblion a'r oedolion.  Mae'r staff yn ymgymryd â chyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn gydwybodol ac yn eu gweithredu'n effeithiol.  Mae disgyblion a rhieni yn nodi nad oes problem bwlio.  Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda iawn.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu.

O dan arweiniad cydlynydd effeithiol, mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion sydd angen cymorth dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn darparu rhaglenni addas ac ymestynnol ar eu cyfer.  Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol ac o ganlyniad mae ansawdd y gofal a'r gynhaliaeth i'r disgyblion hyn o safon uchel iawn.

Y mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg iechyd, diogelwch a hylendid yn dda ac mae addysg lles yn gryfder.  Mae gwasanaethau'r ysgol yn creu naws Gristnogol briodol ac ethos myfyrgar.

Rhoddir cryn bwyslais ar ddarparu cyfleoedd diddorol i hyrwyddo datblygiad diwylliannol y disgyblion, sy'n digwydd fel rhan annatod o'r cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn ardderchog.  Mae gwybodaeth i rieni yn dda ac mae ysgol yn paratoi cylchlythyrau rheolaidd a chynhwysfawr ar eu cyfer.

**Yr amgylchedd dysgu:  Rhagorol**

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu ei pholisïau chynhwysol ac awyrgylch agored yn rhagorol.  Ceir ethos deuluol sydd yn seiliedig ar weithredu polisïau sy'n parchu hawliau pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol.  Mae'r disgyblion yn cael cyfle cyfartal ymhob maes o'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu ac ymestyn eu medrau academaidd a chymdeithasol yn llawn.  Mae awyrgylch dysgu cadarnhaol yn bodoli.  Hyrwyddir ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy weithdrefnau, megis casglu tuag at elusennau, cefnogi ysgol yn Lesotho, agweddau rhyngwladol, themau cwricwlaidd ac amser cylch.

Mae'r adeilad a'r dosbarthiadau yn ddigonol ar gyfer y nifer o ddisgyblion sydd ar y gofrestr.  Mae'r adeilad a'r cyfleusterau allanol wedi eu datblygu'n rhagorol ac yn cael eu defnyddio i'r eithaf i hybu deilliannau da ar gyfer y disgyblion.  Ceir arddangosfeydd lliwgar a chreadigol iawn o waith y disgyblion sydd o ansawdd uchel ac sy'n darparu amgylchedd ysgogol a chadarnhaol ar gyfer dysgu.

Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw i safon uchel iawn, ac mae gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli'r adeilad a'r safle.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n llwyddo i gyfleu honno'n effeithiol i'r staff a'r disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn deall eu rôl wrth weithredu cynlluniau a threfniadau'r ysgol. Mae'r dirprwy yn ysgwyddo ystod o gyfrifoldebau rheolaethol yn effeithiol, sy'n cynnwys asesu a monitro cynlluniau gwaith ar draws yr ysgol. Er yn gymharol newydd i'w swyddi, mae aelodau'r tîm arwain yn datblygu eu rôl yn gydwybodol iawn. Mae arweinwyr unedau a chydlynwyr pwnc yn cyfleu disgwyliadau uchel ac yn hyrwyddo ethos cynhaliol a chefnogol. Mae'r berthynas rhyngddynt a gweddill y staff wedi ei seilio ar gydweithio a gwerthfawrogi cyfraniad y naill a'r llall ac yn sicrhau bod unigolion yn gweithio'n llwyddiannus iawn fel tîm. Mae'r ethos cydweithiol hon yn hybu cyfleoedd i drafod a blaenoriaethu'r materion sydd wedi eu hadnabod ar gyfer gwella yn llwyddiannus.

O dan arweiniad cadeirydd profiadol, mae aelodau'r corff llywodraethol yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau'n gydwybodol ac yn deall eu rôl yn dda. Mae aelodau'r corff yn derbyn cyfrifoldeb am gysgodi gwahanol bynciau. Maent yn datblygu eu rôl fel ffrindiau beirniadol. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r ysgol yn gyson, yn trafod gyda chydlynwyr, ac yn derbyn adroddiadau am berfformiad mewn meysydd penodol. Yna, maent yn adrodd yn ôl yn ffurfiol i'r corff llawn er mwyn pennu blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae cyfraniad llywodraethwyr i'r broses hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn dda. Mae nhw'n derbyn adroddiadau am y data, yn ei drafod yn gyson ac yn ystyried unrhyw dueddiadau mewn perfformiad wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r ysgol yn llwyddo'n dda i fodloni egwyddorion polisiau Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, ar gyfer Iaith Pawb, trwy ddatblygu medrau dwyieithrwydd y disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn 11 oed, mae disgyblion a medrau dwyieithrwydd da. Sefydlwyd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008 yn llwyddiannus gan sicrhau profiadau bwriadus a diddorol i'r disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunan arfarnu'n greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae ganddi weithdrefn sy'n rhoi sylw penodol i bob pwnc neu agwedd. Mae rheolwyr yn ystyried ystod o wybodaeth sy'n cynnwys data ar safonau a dadansoddiad manwl o dueddiadau dros gyfnod. Mae'r wybodaeth eto i'w defnyddio'n effeithiol i godi deilliannau'r disgyblion i fod cystal, neu'n well, na disgyblion mewn ysgolion tebyg o rhan prydau bwyd am ddim ac yn genedlaethol. Rhoddir sylw cyson i dystiolaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu drwy arsylwadau dosbarth, a sefydlwyd trefniadau llwyddiannus i ganfod barn rhieni a disgyblion drwy holiaduron a thrwy wrando ar sylwadau'r cyngor ysgol, pwyllgor eco, Bosys Bach y Berllan a'r pwyllgor masnach deg.

Mae'r cynlluniau gwella blynyddol yn cynnwys strategaethau cadarn a defnyddiol sy'n diffinio tasgau i'w cyflawni o fewn cyfnodau addas. Mae cyfrifoldeb am gydlynu'r strategaethau a nodir er mwyn codi safonau dysgwyr, wedi'u dyrannu'n briodol i

wahanol aelodau staff ac mae'n dechrau arwain at strategaethau i godi safonau grwpiau o ddysgwyr ymhellach. Gwerthuswyd cynllun gwella'r ysgol yn rheolaidd gyda'r deilliannau'n cyfrannu'n briodol at rhan fwyaf o'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella dilynol.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r holl staff elwa o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r gweithdrefnau'n cynnwys cylch gwerthuso sy'n arwain at nodau cytûn sydd wedi eu seilio ar anghenion datblygu unigol a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio ag ysgolion eraill mewn rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol, sy'n cynnwys datblygu cynlluniau darllen a phrosiect 'Gwraidd ac Adenydd' er mwyn ymchwilio i ddatblygu hunaniaeth Gymreig disgyblion. Mae hyn wedi arwain at godi safonau iaith Gymraeg y disgyblion ar draws yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni yn gryf. Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rieni ac Athrawon sy'n weithgar ac yn ei chynorthwyo i ddarparu adnoddau sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion mewn cyd-destunau cwricwlaidd ac allgyrsiol.

Mae cyswllt agos ac effeithiol rhwng yr ysgol â'r meithrinfeydd sy'n ei bwydo, sy'n helpu disgyblion newydd i ymgartrefu'n gyflym. Mae'r trefniadau pontio gyda Ysgol Gyfun Glantaf yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r athrawon o fewn y clwstwr yn safoni gwaith, yn rhannu adnoddau ac yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd er mwyn datblygu elfennau cwricwlaidd ar y cyd, er enghraifft, drwy ddarparu gwersi Almaeneg. Mae cysylltiadau gydag asiantaethau arbennig wedi arwain at wella lles disgyblion. Mae cysylltiadau cryf gyda'r awdurdod lleol, Menter Iaith Caerdydd, Yr Urdd a sefydliadau hyfforddi athrawon sy'n cyfoethogi'r darpariaeth ac yn hybu deilliannau ar gyfer y disgyblion.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan flaenllaw o fewn y gymuned. Mae disgyblion yn ymweld â gwahanol fannau'n gyson er enghraifft, y llyfrgell leol, Sain Ffagan, a'r Amgueddfa Genedlaethol. Maent hefyd yn aml yn croesawu unigolion o'r gymuned a chyflogwyr lleol i'r ysgol. Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi eu profiadau dysgu a'u hymwybyddiaeth o'u cynefin.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn rheoli'r gyllideb a ddyrennir i'r ysgol yn dda, gan sicrhau trefniadau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae cyswllt cryf rhwng blaenoriaethau'r ysgol a phenderfyniadau gwariant. Mae prosesau monitro'r gyllideb yn dda ac yn rhoi ystyriaeth berthnasol i'r adroddiadau cyllidol cyson a ddarperir gan wasanaeth addysg yr awdurdod lleol.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda. Mae ganddi ddigon o adnoddau dysgu sydd o ansawdd da. Buddsoddwyd yn ddiweddar mewn cyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd wedi arwain at welliant mewn safonau. Mae'r adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu rheoli a'u cadw i safon uchel.

Mae trefniadau addas ar waith ar gyfer gwerthuso a rheoli perfformiad yr holl staff a gwneir defnydd effeithiol o'r amser cynllunio, paratoi ac asesu sydd ar gael i'r athrawon.  Cynllunnir defnydd priodol o gynorthwywyr dosbarth ac mae eu cyfraniad yn y Cyfnod Sylfaen, ac yn cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn briodol.

O ystyried deilliannau disgyblion a'r defnydd a wneir o'r cyllid, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron dysgwyr**

Cwblhaodd 103 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Mae bron pob un o'r disgyblion o'r farn eu bod yn cael eu trin â pharch ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a bod yr ysgol yn delio yn dda ag unrhyw fwlio. Maent i gyd o'r farn bod digon o adnoddau ar gael iddynt wneud eu gwaith ac hefyd maent yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn anghytuno bod safonau ymddygiad yn dda yn y gwersi ac yn ystod amser chwarae ac amser cinio.

**Holiaduron rhieni**

Cwblhaodd 156 o'r rhieni, neu ofalwyr, yr holiadur ac mae lefelau boddhad rhieni â'r ysgol yn uchel. Mae bron pob un yn cytuno neu yn cytuno'n gryf bod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i fod yn iach. Maent hefyd yn cytuno bod eu plant yn gwneud cynnydd da a bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda. Mae ymatebion y rhieni yn yr holiadur yn cadarnhau bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch, ac yn disgwyl iddynt wneud eu gorau. Mae rhieni yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion ac yn teimlo y gallant ddod i mewn i drafod, neu i fynegi pryder heb unrhyw drafferth. Mae ychydig o rieni o'r farn nad yw'r gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar hyn mae y plant yn ei ddysgu.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ray Owen | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Watkins | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Dyfrig Wyn Ellis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mari Phillips | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |